
# System Chwilio am Geisiadau Cynllunio Conwy 

## Canllawiau - Chwilio am geisiadau cynllunio


**Cam 1** Ym mlwch cyfeiriad eich porydd rhyngrwyd, teipiwch: https://www.conwy.gov.uk/poryddcynllunio

**Cam 2** Rŵan dylech weld y dudalen ‘**Chwilio am Geisiadau Cynllunio**’. Bydd y dudalen hon yn dweud wrthych beth mae'r system chwilio am geisiadau cynllunio yn gallu ei wneud a'r rhybuddion hawlfraint sy'n berthnasol i'r wybodaeth sydd ar y system.




Cliciwch ar y ddolen gyswllt ‘**Chwilio Ceisiadau Cynllunio Ar-Lein**’ i fynd i'r dudalen chwilio am gais cynllunio.


**Cam 3** Gallwch ddefnyddio sawl ffordd i chwilio yn y gronfa ddata. Y ffordd orau o ddod o hyd i gais cynllunio penodol yw defnyddio Rhif y Cais yn unig (os yw hwn gennych), ond gallwch chwilio’r gronfa ddata gan ddefnyddio gwybodaeth eraill. Dylid rhoi Rhif y Cais yn yr un fformat a nodir , e.e. 0/00000.



**Sylwer** Gallwch ddefnyddio mwy nag un criterion, er enghraifft, '**Gair Allweddol y Cais'** a '**Cynghorau Cymuned**'. Rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw'r criteria chwilio rydych yn eu defnyddio yn cael gwared ar yr un blaenorol. Er enghraifft, mae teipio "*carafán"* ym mlwch '**Gair Allweddol y Cais'** yn dod o hyd i rai ceisiadau o bosibl ac mae dewis "*Cyngor Cymuned Llanfair Talhaiarn*" o restr y **'Cynghorau Cymuned**' yn dod o hyd i geisiadau cynllunio posibl. Ond os gwnewch chi deipio'r ddau, mae'n bosibl na cheir unrhyw geisiadau cynllunio oherwydd nad yw neb wedi gwneud cais cynllunio ar gyfer carafán yn Llanfair Talhaiarn.

**Chwilio trwy ddefnyddio dyddiadau**
Defnyddiwch y math o ddyddiad rydych chi eisiau ei ddefnyddio o'r rhestr **'Chwilio fesul math o ddyddiad'**. Er enghraifft, os ydych chi eisiau chwilio yn ôl y dyddiad y gwnaethom ni dderbyn y cais cynllunio, dewiswch 'Dyddiad Derbyn'. Yna, gallwch chwilio gan ddefnyddio'r dewisiadau canlynol.

- **Chwilio dyddiadau fesul mis**: mae hyn yn caniatáu i chi deipio y nifer o fisoedd yn y gorffennol (o ddyddiad heddiw) sy'n cael eu cynnwys yn y chwiliad.
- **Chwilio dyddiadau fesul diwrnodau**: mae hyn yn caniatau i chi deipio cymaint o ddiwrnodau yn y gorffennol (o ddyddiad heddiw) sy'n cael eu cynnwys yn y chwiliad.
- **Chwilio rhwng dyddiadau penodol**: mae hyn yn caniatau i chi deipio dau ddyddiad; bydd ceisiadau cynllunio rhwng y ddau ddyddiad yn cael eu cynnwys yn y chwiliad DD-MM-BBBB, er enghraifft byddai 1 Hydref 2007 yn cael ei deipio fel 01-10-2007.
- **Dyddiadau ddim yn berthnasol**: mae'r dewis hwn yn troi'r dewis chwilio i ffwrdd (dyma'r dewis rhagosodedig).




**Cam 4** Ar ôl clicio ar y botwm Chwilio (gan nodi'r ymwadydd a rhybudd hawlfraint) dylech weld un o ddwy dudalen.

**Dim canlyniadau chwilio**
Os nad yw'r criteria chwilio rydych wedi ei deipio yn cyfateb i unrhyw gais cynllunio sydd yn y system, yna byddwch yn gweld tudalen debyg i'r un isod. Byddwch yn ymwybodol y gall hwn hefyd ymddangos os ydych wedi ychwanegu bwlch mewn camgymeriad o fewn unrhyw criteria chwilio nad yw'n ymddangos yn y gronfa ddata h.y. os ydych yn ychwanegu bwlch cyn rhif y cais cynllunio neu o fewn rhif y cais cynllunio.

Canlyniadau Chwilio am Gais

Chwilio eto

No Records Found. Please resubmit search with different criteria.

Chwilio eto

**Canlyniadau chwilio**

Os yw'r criteria chwilio rydych wedi'i deipio yn cyfateb i geisiadau cynllunio sydd yn y system yna byddant yn cael eu rhestru fel y rhai a nodir isod. Os bydd nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cyfateb angen mwy nag un dudalen, yna byddwch yn gweld dolenni cyswllt uwchben y rhestr o geisiadau cynllunio. Gallwch ddefnyddio'r rhain i symud rhwng y tudalennau. Pan fyddwch wedi dod o hyd i'r cais cynllunio rydych ei angen gallwch **glicio ar rif y cais cynllunio** i weld mwy o wybodaeth fanwl.

Canlyniadau Chwilio am Gais

Chwilio eto

Records 1 to 10 of 239

I weld y manylion llawn, cliciwch ar "Cyfeirnod Awdurdod Lleol".

1 2 3 4 Nesaf Olaf

| Rhif y Cais | Cyfeiriad y Safle | Y Cais | Statws | Dyddiad Cofrestru | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| 0/43782 | Plas Gwyn Gannock Park DEGANWY LL31 9PZ | Retrospective application for the erection of a garage. | REGISTERED | 09-03-2017 | |
| 0/43781 | 14 Coed Y Glyn Llanrhos Llandudno Conwy LL30 1JL | To re shape, reduce and thin out 1 no mature Lime Tree | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43780 | Plas Parciau 100 Llanelian Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 9UH | Certificate of Lawfulness for proposed change of use to an addictions treatment centre | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43775 | Bryntirion 4 Penrhyn Park Penrhyn Bay Conwy LL30 3HW | Single storey extension to rear of existing dwelling ( part retrospective) | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43779 | 23 Belgrave Road COLWYN BAY LL29 8EY | Proposed erection of detached bungalow | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43770 | 21 Conwy Road Colwyn Bay Conwy LL29 7AA | Remove front ground floor wall to existing rear outbuilding to form car port. Paint existing front elevation windows and shop front fascia | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43769 | Alhyleh 1 Miners Lane Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 9HG | Discharge of condition no 2 of planning approval 0/42947 (Extension of raised decking area to the front of the dwelling and erection of timber fence (Retrospective Application) ) | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43776 | Foel Uchaf Foel Road Groes Llansannan Conwy LL16 5SL | Proposed removal of existing outbuilding and erection of two storey annexe to front/side of property | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43773 | 9 Dinerth Hall Road Rhos On Sea Conwy LL28 4PX | Erection of conservatory to front of property | REGISTERED | 08-03-2017 | |
| 0/43771 | 60 Mostyn Street Llandudno Conwy LL30 2SF | Installation of structural pillar in the basement to support ATM to be installed under previously granted application No. 0/43206 (Listed Building Consent) | REGISTERED | 08-03-2017 | |

1 2 3 4 Nesaf Olaf

Chwilio eto

**Cam 5 Gweld canlyniadau manwl**

Mae'r dudalen fanwl wedi'i rhannu'n 4, gydag opsiwn i weld dogfennau (gweler Cam 6).

**Cyfeiriad y Safle:** mae'n dangos cyfeiriad y safle a rhif y cais cynllunio.

Manylion y Cais Cynllunio

Yn ôl | Chwilio eto | Weld Dogfennau

**Tudalen Fanylion y Cais Cynllunio - 0/43199**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad y Safle | Halliwell Jones Ffordd Maelgwn Llandudno Junction Conwy LL31 9PL |

**Crynodeb o ddatblygiad y cais**: mae'n rhoi gwybodaeth i chi am statws presennol y cais cynllunio, er enghraifft os yw penderfyniad wedi cael ei wneud ai peidio.

| Crynodeb o Ddatblygiad y Cais | |
|---|---|
| Dyddiad Cofrestru | 13-09-2016 |
| Sylwadau Tan | (Cyfeiriwch at y ddogfennaeth hysbysiad safle (os yn berthnasol) os gwelwch yn dda) |
| Lefel Penderfynu | Case Officer |
| Y Penderfyniad | Approved With Conditions 31-10-2016 |
| Apeliwyd | |
| Penderfyniad yr Apêl | |

**Manylion y cais**: mae'n rhoi gwybodaeth fwy manwl am y cais cynllunio, er enghraifft, y cais cynllunio, swyddog y cais a chyfesurynnau map.

| Manylion y Cais | |
|---|---|
| Manylion y Cais | 0/43199 |
| Math o Gais | Full |
| Math o Ddatblygiad | MinorDevExt |
| Y Cais | Reconstruct existing MINI canopy to form MINI showroom extension. Refurbish MINI showroom, to include new BMW Used Car Showroom within existing building. Upgrade external wall, window and roof finishes. |
| Defnydd Tir Presennol | Sui Generis - in a class of their own |
| Defnydd Tir Bwriedig | Sui Generis - in a class of their own |
| Statws Presennol | FINAL DECISION |
| Ardaloedd Etholiadol | Pensarn |
| Cynghorau Cymuned | Cyngor Tref Conwy Town Council |
| Cyfeirnod y Safle | Dwyreiniad 280428 Gogleddiad 377481 |
| Swyddog Achos / Ffôn | Ian Gibbons 01492575703 |

**Gwybodaeth arall sydd ar gael am y cais cynllunio:** mae'n rhestru dolenni cyswllt sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y cais cynllunio.

**Gwybodaeth Arall sydd ar gael am y Cais Cynllunio - 0/43199**

Dyddiadau'r Cais

Ymgynghorwyr Statudol

Ymgynghori efo Cymdogion

Yn ôl | Chwilio eto | Weld Dogfennau

## Cam 6 Gweld dogfennau sy'n ymwneud â chais cynllunio

Naill ai ar waelod neu frig y dudalen, **cliciwch ar** Weld Dogfennau

Dogfennau Cynllunio


Dogfennau Agos

Cliciwch ar rif y ddogfen i'w gweld.

Cyntaf Blaenorol 1 2 Nesaf Olaf

| Rhif dogfen | Disgrifiad | Statws | Teitl/Cyfeirnod | Dyddiad y ddogfen |
|---|---|---|---|---|
| 2626525 | Decision - Final (Web) | | | 01/11/2016 |
| 2626524 | Case Officer Report (Web) | | | 01/11/2016 |
| 2616028 | Consultation Response Internal - Highways (Web) | | | 05/10/2016 |
| 2612486 | Consultation Response - Town/Community Council (Web) | | Conwy | 27/09/2016 |
| 2611742 | Consultation Response - Natural Resources Wales (Web) | | | 26/09/2016 |
| 2610734 | Consultation Response Internal - Environmental Services (Web) | | | 22/09/2016 |
| 2606404 | Proposed - Elevation Drawing (Web) | | | 14/09/2016 |
| 2606402 | Existing - Elevation Drawing (Web) | | | 14/09/2016 |
| 2606400 | Existing - Floor Plan (Web) | | Ground | 14/09/2016 |
| 2606398 | Location Plan (Web) | | | 14/09/2016 |

Pan rydych chi wedi dod o hyd i'r ddogfen sydd ei hangen arnoch chi, **cliciwch ar rif y ddogfen**.




Os oes arnoch chi eisiau mesur llinell neu ardal ar y cynllun gallwch ddefnyddio'r **offer mesur** isod.






**Modd Mesur Togl Ymlaen/i Ffwrdd:** Bydd y botwm yma'n toglo'r Modd Mesur ymlaen neu i ffwrdd. Pan fydd y Modd Mesur ymlaen bydd blwch yn ymddangos o amgylch yr eicon.

DS. Mae'n rhaid troi'r Modd yma i ffwrdd os oes arnoch chi eisiau chwyddo'r cynllun

Pan mae'r Modd Mesur ymlaen gallwch fesur pellter ac ardaloedd.

I fesur pellter cliciwch ar y ddau bwynt y mae arnoch chi eisiau mesur y pellter rhyngddynt. Yna bydd llinell goch yn ymddangos rhwng y ddau bwynt. Bydd y pellter yn ymddangos ar

ochr chwith y sgrin os rowch y cwrswr llygoden ar y cynllun. Os ydych chi'n clicio ar y cynllun eto bydd llinell arall yn ymddangos a chewch fesuriad ar gyfer cyfanswm pellter y llinell goch (sef cyfanswm y pellter rhwng pwynt 1 a phwynt 2 a phwynt 2 a phwynt 3). Gallwch ailadrodd y broses hon sawl gwaith. Pan dynnir mwy na dwy linell, bydd llinell glas yn ymddangos yn awtomatig o'r pwynt cyntaf a'r pwynt olaf. Yn yr achos yma, bydd cyfanswm pellter y llinellau coch a'r llinell las a mesuriad o'r ardal o fewn y llinellau yn cael eu cyfrifo. I fesur ardal / pellter newydd, mae'n rhaid i chi glirio'r mesuriadau presennol yn defnyddio'r eicon clirio mesuriadau.

DS. Y gyfradd a ddefnyddir fydd y gyfradd a ddefnyddiwyd pan ychwanegwyd y pwynt mesur diwethaf.

**Clirio Mesuriadau:** Bydd y botwm yma'n clirio'r mesuriadau presennol.

**Gosod Graddfa'r Cynllun:** Mae'r botwm yma'n eich galluogi i osod graddfa'r cynllun drwy dynnu llinell rhwng dau bwynt a nodi'r gwir bellter rhyngddynt. I wrthwneud y raddfa ddiofyn, dewiswch yr eicon yma ac yna cliciwch ar ddau bwynt ar y cynllun. Yna bydd yn rhaid i chi nodi gwir bellter y llinell (mewn metrau). Bydd y gyfradd ddiwygiedig yn cael ei hailgyfrif yn awtomatig yn seiliedig ar y pellter rydych chi wedi ei nodi.

**Graddfa:** Yn dangos graddfa bresennol y cynllun. Gellir newid y raddfa drwy nodi gwerth newydd yn y blwch. Bydd hyn yn effeithio ar raddfa unrhyw fesuriad newydd.

## Sut i gysylltu â ni

**Ffôn**: 01492 575471 / 575479 / 575251 / 575121
**e-bost**: cynllunioplanning@conwy.gov.uk
**Gwefan**: https://www.conwy.gov.uk/cynllunio

This document is also available in English.